LIFE13 ENV-UK-000549

# Canlyniadau ac argymhellion

**Mai 2020**



Paratowyd gyda chymorth Rhaglen LIFE
yr Undeb Ewropeaidd



# Rheoleiddio gwastraff yn fwy clyfar yn Ewrop

**Prosiect cydweithredol yw ‘LIFE SMART Waste’ sy’n ceisio datblygu a dangos ffyrdd arloesol o ddeall troseddau sy’n ymwneud â gwastraff, eu taclo a’u lleihau.**

Wrth greu’r prosiect yn 2014, roedd buddiolwyr prosiect LIFE SMART Waste yn cydnabod bod bylchau sylweddol yn yr hyn a ŵyr pob un ohonom am achosion, ysgogiadau a deinameg y troseddau sy’n ymwneud â gwastraff, yn enwedig mewn ffrydiau gwastraff heriol. Yn ôl y prosiect, gallwn helpu i gau’r bylchau hyn drwy adnabod a datblygu dangosyddion, rhwystrau a chamau unioni ymarferol ar gyfer ymddygiad troseddol o’r fath.

Yn y pamffled hwn, cawn grynodeb o amcanion, canlyniadau ac argymhellion prosiect LIFE SMART.

## Buddiolwyr y prosiect

SEPA Scottish Environment Protection Agency / Buidheann Dìon Àrainneachd na h-Alba

ACR+

bruxelles environnement leefmilieu brussel .brussels

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Gyda chymorth Rhaglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd (LIFE13 ENV-UK-000549)

## Troseddau gwastraff

**Wrth i wastraff gael ei reoli a’i fasnachu’n anghyfreithlon, achosir difrod sylweddol i’r amgylchedd, mae iechyd y cyhoedd yn cael ei andwyo ac amherir ar gystadlu teg.**

Gall gweithgarwch anghyfreithlon ddigwydd ym mhob cam o’r gadwyn rheoli gwastraff, o’r cynhyrchu hyd at waredu’n derfynol, felly gall troseddwyr elwa ar draul gweithredwyr cyfreithlon yn y diwydiant rheoli gwastraff.

Mae troseddau gwastraff yn dal yn broblem ddifrifol i reoleiddwyr, asiantaethau gorfodi a deddfwyr yn Ewrop a thu hwnt. Cydnabyddir bod y broblem yn ffactor sy’n cael effaith niweidiol ar weithredu polisi gwastraff, ac sy’n cyfyngu’r symud tuag at economi cylchol.

Gwelwyd bod troseddau gwastraff yn denu grwpiau troseddau cyfundrefnol, yn ymestyn tu hwnt i ffiniau gwledydd, ac felly yn fygythiad sylweddol. Mae gofyn i ni fod yn gweithio’n arloesol mewn partneriaeth ar draws gwledydd, er mwyn adnabod y troseddau hyn a’u hatal.









## Amcanion y prosiect

| Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 |
|---|---|---|
| Datblygu a dangos ffyrdd arloesol o gasglu deallusrwydd a dadansoddi er mwyn adnabod a deall materion troseddau gwastraff sy'n gysy**lltiedig â ffrydiau gwastraff 'heriol'**, gweithredwyr gwastraff problemus a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon. | Cynllunio ymyraethau arloesol, ar sail deallusrwydd, a dangos sut y gellir defnyddio'r rhain i daclo materion sy'n ymwneud â throseddau gwastraff, a lleihau eu heffaith mewn ardaloedd neilltuol. | Rhannu canlyniadau'r prosiect a'r hyn a ddysgwyd, ag eraill, a gwerthu manteision y ffordd o fynd ati i daclo troseddau gwastraff, a dylanwadu ar newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth yn Ewrop. |
|  |  |  |



| Amcan 1 | Datblygu a dangos ffyrdd arloesol o gasglu deallusrwydd a dadansoddi er mwyn adnabod a deall materion troseddau gwastraff sy’n gysylltiedig â ffrydiau gwastraff ‘heriol’, gweithredwyr gwastraff problemus a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon. |
|---|---|

## Adnoddau, dulliau a thechnegau arloesol

Aeth LIFE SMART Waste ati i ddatblygu a threialu amrywiaeth o adnoddau, dulliau a thechnegau dadansoddi fel bod rheoleiddwyr amgylcheddol yn gallu: **rhagfynegi** troseddau sy’n datblygu yn y sector rheoli gwastraff; **canfod** gweithredwyr gwastraff a allai achosi problemau; a **chydweithio** yn effeithiol i roi sylw i droseddau gwastraff.

| Adnoddau dadansoddi rhagfynegol | Adnoddau a thechnegau canfod | Adnoddau a thechnegau cydweithredol |
|---|---|---|
| Sganio’r gorwel<br>Ymddygiad cystadleuol<br>Ymchwilio ariannol | Synhwyro o bell<br>Dyfeisiau olrhain llif gwastraff<br>Archwilio llif gwastraff<br>Dangosyddion troseddau gwastraff | Strwythurau grŵp ymyrraeth<br>Cynllunio ymyrraeth<br>Hwb Cyfathrebu<br>Cronfa ddata fflagio drawsffiniol (DU) |




## Adnoddau rhagfynegi dadansoddol

| Enw | Disgrifiad | Canlyniadau |
| --- | --- | --- |
| **Pecyn sganio'r gorwel** | Pecyn i helpu roi system rybuddio gynnar at ei gilydd ar gyfer datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector gwastraff, a'u potensial o ran mentrau troseddol. Mae'n cynnwys canllaw ymarferol y gall cyrff rheoleiddio a'u partneriaid ei ddefnyddio, er mwyn:<br>• datblygu deallusrwydd am droseddau gwastraff drwy gasglu, trefnu a rhannu signalau gwan sy'n dynodi newid;<br>• deall newidiadau mewn ymddygiad troseddol a phatrymau troseddu drwy asesu, graddio a dyfnhau eu dealltwriaeth o oblygiadau'r signalau gwan hynny;<br>• cydweithio i ymchwilio, cynllunio a gweithredu i amddiffyn defnyddwyr a'r diwydiant nawr, ac yn y dyfodol. | Adroddiad ymchwil<br>Adnodd<br>Adroddiad gwerthuso |
| **Pecyn ymddygiad cystadleuol** | Casgliad o adnoddau craidd ar gyfer dadansoddi gwybodaeth o amryfal ffynonellau i gael gwell dealltwriaeth o ymddygiad y farchnad ac/neu'r diwydiant. Gall hyn, o bosib, ddynodi bygythiadau, heriau, cyfleoedd a newidiadau, a hynny'n gynnar, yn y marchnadoedd gwastraff ac ailgylchu, a thynnu sylw at fannau gwan difrifol. Gallai hyn wella prosesau gwneud penderfyniadau, a hefyd gwella gallu rheoleiddwyr i gynllunio ymyraethau, a'u rhoi ar waith. | Adroddiad ymchwil<br>Adroddiad astudiaeth beilot<br>Adnodd<br>Adroddiad gwerthuso |
| **Pecyn ymchwilio ariannol** | Adnodd sgrinio mewn dwy ran, i helpu i ganfod pa weithredwyr a gweithgareddau sydd angen eu gwerthuso'n fwy trylwyr yn y broses drwyddedu. Bwriad yr adnodd yw helpu rheoleiddwyr i asesu risg drwy roi dealltwriaeth ychwanegol iddynt ar gyfer canfod troseddau posibl neu debygol yn y dyfodol gan weithredwyr gwastraff sy'n cael eu rheoleiddio. | Adroddiad ymchwil<br>Adnodd<br>Adroddiad gwerthuso |


## Adnoddau a thechnegau canfod

| Enw | Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Technegau synhwyro o bell** | Ymchwilio i botensial defnyddio technegau a data Synhwyro o Bell er mwyn casglu gwybodaeth am waredu gwastraff yn anghyfreithlon, megis pentyrru, defnyddio tir a thirlenwi anghyfreithlon. Mae'n cynnwys y canlyniadau a'r argymhellion o dri phrosiect peilot (ynghyd â'r adnoddau, llif gwaith a'r canllawiau cysylltiedig):<br>i. Canfod safleoedd gwastraff (anghyfreithlon) anhysbys<br>ii. Canfod defnyddiau gwastraff<br>iii. Cefnogi achos gweithredol 'byw' | Adroddiadau ymchwil<br>Adroddiadau astudiaeth beilot<br>Adnodd<br>Adroddiad gwerthuso |
| **Dyfeisiau olrhain gwastraff** | Pwyso a mesur potensial defnyddio dyfeisiau olrhain electronig, mewn ffyrdd arloesol, i ddilyn symudiadau gwahanol fathau o wastraff yn yr Alban a Chymru. Rhoddir ystyriaeth i sialensiau ymarferol a chyfreithiol. | Adroddiad |
| **Dull gweithredu archwilio llif gwastraff** | Pwyso a mesur y rhwystrau rhag datblygu 'archwiliad llif gwastraff' ymarferol a fyddai'n helpu awdurdodau amgylcheddol i ganfod ble mae gweithgareddau gwaredu anghyfreithlon yn digwydd drwy olrhain symudiadau gwastraff, ac yn fwy penodol unrhyw golledion, o'r man cynhyrchu hyd at ben y daith. Mae'n cynnwys argymhellion ar ddatrysiad digidol a newid polisi. | Adroddiad |
| **Pecyn dangosyddion troseddau gwastraff** | Pecyn sy'n darparu dangosyddion ymarferol troseddau gwastraff drwy ddefnyddio dadansoddiad syml o ddata gweithredwyr gwastraff. Ceir pedwar dull 'dangosydd' hwylus i ddadansoddi'r wybodaeth graidd a gesglir, fel arfer, gan weithredwyr rheoli gwastraff. Mae modd trosglwyddo'r dangosyddion i ddata asiantaethau amgylchedd ar draws Ewrop, a gellir eu haddasu i ystod eang o ymholiadau posibl am droseddau gwastraff. | Pecyn |

## Adnoddau a thechnegau cydweithredol

| Enw | Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Strwythurau grŵp ymyrraeth** | Trosolwg o rwystrau cyffredin i gydweithio rhwng asiantaethau– gan gynnwys pobl, strwythurau a phrosesau – gydag argymhellion ar gynllunio partneriaethau grŵp ymyrraeth effeithiol. | Adroddiadau |
| **Llawlyfr cynllunio ymyrraeth** | Bwriad y llawlyfr yw rhoi fframwaith i awdurdodau amgylcheddol yn Ewrop (a thu hwnt) ar gyfer dewis a chynllunio ymyraethau, a llunio cytundebau ymyrraeth â phartneriaid. | Llawlyfr i ddefnyddwyr |
| **'Hwb' cyfathrebu ar-lein** | Llwyfan ar-lein, neu 'Hwb' ar gyfer asiantaethau a grwpiau arbenigol i gydweithio a rhannu gwybodaeth nad yw'n sensitif mewn rhith gymunedau diogel, mewn amser real. Yn y cynllun peilot estynedig, roedd cynrychiolwyr o blith: rheoleiddwyr amgylcheddol y DU (Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban [SEPA]), Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Amgylchedd Lloegr ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon); Gweithgor Troseddau Llygredd INTERPOL; buddiolwyr y prosiect; Grŵp Llywio Allanol y prosiect; prosiect Gwasanaeth Olrhain Gwastraff amlasiantaethol DEFRA (DU) ac arbenigwyr eraill y diwydiant. | Peilot |
| **Cronfa ddata fflagio drawsffiniol (DU)** | Cronfa ddata ddiogel sy'n hwyluso rhannu deallusrwydd Swyddogol (Sensitif) rhwng asiantaethau cenedlaethol, yn y DU yn gyntaf. Bydd y gronfa ddata yn fflagio os bydd gan reoleiddwyr amgylcheddol eraill wybodaeth am endidau sydd o ddiddordeb i bawb, sy'n gysylltiedig â symud gwastraff ar draws ffiniau (e.e. troseddwyr trawsffiniol dan amheuaeth neu rai sy'n cael eu drwgdybio o alluogi hyn). | Peilot parhaus |








| Amcan 2 | Cynllunio ymyraethau arloesol, ar sail deallusrwydd, a dangos sut y gellir defnyddio'r rhain i daclo materion sy'n ymwneud â throseddau gwastraff, a lleihau eu heffaith mewn ardaloedd neilltuol. |
|---|---|


# Casglu deallusrwydd

Bu LIFE SMART Waste wrthi'n cynnal amryfal ymchwiliadau er mwyn llenwi bylchau mewn dealltwriaeth gyfredol, a chynhyrchu deallusrwydd am droseddau gwastraff.

| Maes ymchwil | Disgrifiad | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Canfyddiadau'r diwydiant gwastraff am droseddau gwastraff (Yr Alban)** | Arolwg o ganfyddiadau'r diwydiant Rheoli Gwastraff ynghylch troseddau gwastraff yn yr Alban, a wnaed yn 2016. Y bwriad oedd deall natur ac asesu maint y broblem. | Adroddiad ymchwil |
| **Deallusrwydd am droseddau gwastraff (Yr Alban a Chymru)** | Adolygiad o ddeallusrwydd SEPA a CNC am wastraff ar gyfer 2015-2016 i adnabod y materion â'r blaenoriaeth uchaf o ran ymchwilio ac ymyrryd ymhellach. | Adroddiad deallusrwydd |
| **Mannau gwan y sector teiars gwastraff (Yr Alban)** | Astudiaeth o'r sector Teiars Gwastraff yn yr Alban yn 2017 i ganfod ardaloedd ble mae'r sector yn agored i droseddau. Mae'r astudiaeth yn cael ei hategu gan argymhellion i liniaru'r mannau gwan a nodir. | Adroddiad deallusrwydd |
| **Cludo gwastraff trawsffiniol yn anghyfreithlon (DU)** | Asesu'r rhan y mae cludwyr gwastraff yn ei chwarae o ran cludo a gwaredu gwastraff mewn safleoedd anghyfreithlon (yn y DU). Cynhaliwyd yr asesiad yn 2018 ac argymhellir rhagor o ymchwiliadau ac ymyraethau posibl. | Adroddiad deallusrwydd |
| **Agored i frocera gwastraff anghyfreithlon** | Asesu pa mor agored yw'r diwydiant Rheoli Gwastraff i dor-cyfraith gan froceriaid gwastraff diegwyddor. Cynhaliwyd yr asesiad yn 2019 ac fe'i ategir gan argymhellion ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth, prosesau rheoleiddio ac arferion gorfodi. | Adroddiad deallusrwydd |
| **Effaith cyfyngiadau mewnforio gwastraff (Tsieina) ar droseddau** | Asesu bygythiad troseddau gwastraff o ganlyniad i'r cyfyngiadau gan Tsieina ar fewnforio gwastraff tramor yn dechrau yn 2018. Cynhaliwyd yr asesiad yn 2020, ar y cyd ag INTERPOL. | Adroddiad deallusrwydd |





# Ymyraethau ar sail deallusrwydd

Gan ddefnyddio darnau o'r deallusrwydd a gasglwyd, a thrwy dreialu llawlyfr newydd y prosiect,  sef y Llawlyfr Cynllunio Ymyrraeth, aeth LIFE SMART ati i gynllunio ymyraethau ar draws asiantaethau i dargedu mannau gwan â blaenoriaeth uchel yn y gadwyn gyflenwi rheoli gwastraff.

| 1. Warysu gwastraff yn anghyfreithlon (2017-18) | 2. Cludo gwastraff yn anghyfreithlon (2018) | 3. Brocera gwastraff yn anghyfreithlon (2020) |
|---|---|---|
| Bwriad y math cyntaf o ymyrraeth ar draws asiantaethau oedd 'lleihau'r warysu sydd yn digwydd mewn troseddau gwastraff' yn yr Alban. Roedd hyn yn cydnabod y broblem bod adeiladau fferm a warysau sy'n cael eu rhentu'n ddireol yn cael eu defnyddio i waredu gwastraff yn anghyfreithlon.<br><br>Yn rhan o'r ymyrraeth, roedd ymgyrch addysgol oedd yn targedu'r diwydiant a'r cyhoedd. Gweithredwyd yr ymgyrch ar y cyd ag ystod o sefydliadau partner, gan gynnwys Crimestoppers (Yr Alban).<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddeallusrwydd newydd am warysau anghyfreithlon yn ystod yr ymyrraeth. Er hynny, bu'r ymgyrch yn gymorth i godi ymwybyddiaeth o'r broblem, a llwyddodd i ddefnyddio Llawlyfr Cynllunio Ymyraethau y prosiect. | Roedd yr ail fath o ymyrraeth ar draws asiantaethau yn ceisio 'lleihau rhan cludwyr nwyddau mewn symud gwastraff yn anghyfreithlon yn y DU'.<br><br>Daeth LIFE SMART Waste ag asiantaethau diogelu amgylchedd yr Alban, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon at ei gilydd ynghyd ag asiantaethau gorfodi allweddol[1] i ddarparu pwyntiau gwirio proffil uchel ar y ffordd ac ymweliadau safle fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth *'Drive out waste crime'.*<br><br>Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a denu sylw'r cyfryngau, cymeradwywyd a chefnogwyd yr ymgyrch gan gymdeithasau trafnidiaeth allweddol y DU, a chyrff cysylltiedig y diwydiant. | Bwriad y trydydd math o ymyrraeth oedd lleihau'r potensial, a'r achosion, lle roedd broceriaid twyllodrus yn rheoli gwastraff yn anghyfreithlon.<br><br>Wrth ymgynghori â grwpiau arbenigol rheoleiddiol a diwydiannol, roedd yr ymyrraeth yn cyfuno camau gweithredu brys a rhai mwy hirdymor (newid polisi) oedd yn mynd tu hwnt i oes y prosiect. Mae'r pecyn ymyrraeth yn cynnwys:<br><br>i. Argymhellion ar gyfer olrhain gwastraff yn orfodol (yn ddigidol) a newidiadau trwyddedu i wella'r trosolwg rheoleiddiol ar froceriaid;<br>ii. Archwilio broceriaid cofrestredig (yr Alban) a chydweithio â rheoleiddwyr amgylcheddol y DU i wella deallusrwydd rheoleiddiol;<br>iii. Ymgyrchoedd Dyletswydd Gofal i atgyfnerthu rheoliadau a chyswllt rhanddeiliaid allweddol i wella cymhwysedd y diwydiant. |

[1] Heddlu yr Alban, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA), Swyddfa Comisiynydd Traffig yr Alban, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a'r  Scottish Business Resilience Centre.



| Amcan 3 | Rhannu canlyniadau'r prosiect, a'r hyn a ddysgwyd, ag eraill, gan werthu manteision y ffordd yr eir ati i ymdrin â throseddau gwastraff, a dylanwadu ar newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth Ewropeaidd. |
|---|---|

## Ymgysylltu a rhannu

O safbwynt gwaith ymgysylltu a rhannu y prosiect, bu LIFE SMART Waste yn canolbwyntio ar y grwpiau allweddol hyn o randdeiliaid:


i. Asiantaethau gorfodi (a'r diwydiant);
ii. Llunwyr polisi a deddfwyr;
iii. Rhanddeiliaid ehangach.

Er mwyn cydnabod y byddai argymhellion technegol a pholisi ar gael tuag at ddiwedd y prosiect, aethpwyd ati i rannu'r gwaith a chynnwys rhanddeiliaid mewn tri cham:

- CAM 1: Codi ymwybyddiaeth (2014 - 2020)
- CAM 2: Eirioli ar ran y prosiect (2018 – 2020)
- CAM 3: Eirioli ar ran After-LIFE (2020 – 2025)

Roedd y negeseuon yn bwrpasol i anghenion a chynnydd y prosiect ym mhob cam. I gychwyn, tynnwyd sylw at nodau'r prosiect, llwyddiannau allweddol a mentrau newydd i godi ymwybyddiaeth. Yn ystod cam 'eirioli' y prosiect, datblygwyd y negeseuon i ddangos y canlyniadau technegol oedd ar gael a'r adroddiadau ar argymhellion y prosiect. Bydd y gwaith eirioli hwn yn parhau yng ngham 'After-LIFE'.

Rhanddeiliaid targed










## 1. Asiantaethau gorfodi a'r diwydiant

Mae'r prosiect wedi llwyddo i wneud cyswllt helaeth ag asiantaethau gorfodi a chynrychiolwyr y diwydiant. Cynorthwyodd hyn y prosiect i ganfod, datblygu a threialu cynnyrch deallusrwydd, adnoddau datblygu capasiti, a thechnegau cynllunio ymyrraeth. Dyma rai rhanddeiliaid allweddol:

- Rheoleiddwyr amgylcheddol o ranbarthau ac Aelod-wladwriaethau'r UE;
- Asiantaethau gorfodi a rhwydweithiau, er enghraifft Heddlu y DU, awdurdodau cyllidol a thollau, ac INTERPOL ac Europol;
- Cyrff a rhwydweithiau proffesiynol, er enghraifft: IMPEL[2] a CIWM[3].
- Prosiectau 'troseddau gwastraff' Ewropeaidd, er enghraifft: EFFACE; TECUM; BlockWaste; DOTCOM Waste; LIFE-ENPE; UK Waste Tracking; a LIFE WasteForce.

## 2. Llunwyr polisi a deddfwyr

Roedd y cyswllt â rhanddeiliaid sy'n llunio polisïau ac yn deddfu yn canolbwyntio ar:

- Y Comisiwn Ewropeaidd (DG Environment);
- Adrannau Anweinidogol (y DU a'r Alban), er enghraifft CThEM a Chyllid yr Alban;
- Llywodraethau lleol/rhanbarthol, gan gynnwys llywodraethau datganoledig y DU.

O ganfyddiadau'r prosiect, daeth llu o argymhellion o ran deddfwriaeth, polisïau a thactegau i helpu i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a'u lleihau. Nodir y rhain mewn adroddiadau cryno ar dair lefel – Ewropeaidd (UE), cenedlaethol (DU) a lleol (yr Alban) – ac fe'u rhestrir hefyd yn yr adran Argymhellion isod.

## 3. Rhanddeiliaid ehangach

Bu LIFE SMART Waste yn rhannu newyddion, cyhoeddiadau ac argymhellion y prosiect â rhanddeiliaid ehangach ar draws Ewrop a thu hwnt, a hynny gan ddefnyddio amryw o sianeli cyfryngau digidol, gan gynnwys gwefan, e-gylchlythyrau i danysgrifwyr a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Defnyddiwyd gwahanol sianeli traddodiadol hefyd, drwy wahanol gyhoeddiadau a digwyddiadau'r cyfryngau. Yn arbennig, llwyddwyd i gynnull 137 o aelodau o 62 o sefydliadau a 42 o wledydd yng Nghynhadledd Derfynol y Prosiect ym Mrwsel (Tachwedd 2019).

Yn unol â chynllun cyfathrebu After-LIFE, bydd buddiolwyr y prosiect yn parhau i rannu canlyniadau ac argymhellion y prosiect wedi 2020.

---

[2] IMPEL – Rhwydwaith yr Undeb Ewropeaidd ar Weithredu a Gorfodi Cyfraith Amgylcheddol
[3] CIWM – Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff







# Argymhellion – Polisi a deddfwriaeth

| | Argymhelliad | Math | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu system olrhain gwastraff electronig orfodol sy’n gallu rhannu data rhwng aelod-wladwriaethau’r UE a’r DU (a weithredir gan bedair weinyddiaeth y DU), gan gynnwys hysbysiadau Atodiad VII[4]. | Polisi | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. Gweinyddiaethau’r DU |
| 2 | Dylai’r UE fynnu gofynion cofrestru cyson i gludwyr gwastraff, ac o leiaf:<br>• Datgysylltu cofrestriad cludwyr gwastraff o froceriaid;<br>• Creu dull gweithredu haenog i awdurdodi cludwyr gwastraff, yn dibynnu ar raddfa a natur y gwastraff a gludir. | Deddfwriaeth-ol | Aelod-wladwriaethau’r UE |
| 3 | Dylai’r UE a’r DU fynnu gofynion cofrestru mwy llym i froceriaid gwastraff, ac o leiaf:<br>• Datgysylltu cofrestriad broceriaid o gludwyr gwastraff;<br>• Adnabod cwmpas daearyddol y gweithredu (e.e. domestig ac/neu ar draws ffiniau);<br>• Codi ffi briodol fel bod modd cael mwy o drosolwg rheoleiddiol ac asesu ffurflenni Atodiad VII[4];<br>• Adnewyddu cofrestriad ar adeg benodol (e.e. tair blynedd) a’i gwneud yn ofynnol cwblhau prawf cymhwysedd technegol dyletswydd gofal ar-lein fel rhan o’r broses ymgeisio;<br>• Cynnwys gwiriadau person cymwys a phriodol a gwiriad hunaniaeth cadarn;<br>• Atal neu ddirymu awdurdodiad os na fodlonir gofynion dyletswydd gofal. | Polisi | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. Asiantaethau Diogelu Amgylchedd (ADA) y DU<br>c. Yr Alban (SEPA) |
| 4 | Cyfuno’r arferion gorau o ran gorfodi, gan gynnwys pwerau sifil, erlyniadau troseddol a gweithredoedd aflonyddol (fel atafaelu cerbydau ac adennill asedau) ar draws yr UE. | Deddfwriaeth-ol | Aelod-wladwriaethau’r UE |
| 5 | Ymestyn Rhan 3 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 i adael i bob asiantaeth amgylchedd y DU gael gafael ar ddata cyfathrebu wrth ymchwilio i droseddau amgylcheddol. | Deddfwriaeth-ol | Llywodraeth y DU |
| 6 | Addasu a datblygu deddfwriaeth briodol i alluogi SEPA i atafaelu cerbydau sy’n rhan o droseddau gwastraff, yn unol â rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr. | Deddfwriaeth-ol | Llywodraeth yr Alban |

[4] Atodiad VII Rheoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar 14 Mehefin 2006 ar gludo llwythi o wastraff [https://ec.europa.eu/environment/waste/shipments/index.htm]



## Argymhellion – Tactegol

| | Argymhelliad | Math | Targed |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheoleiddwyr amgylcheddol yn rhoi’r pecyn Dangosyddion Troseddau Gwastraff ar waith, fel adnodd deallusrwydd rhagweithiol. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 2 | Rheoleiddwyr amgylcheddol yn defnyddio cynnyrch Synhwyro o Bell LIFE SMART Waste wrth helpu i ymchwilio i weithgarwch gwastraff anghyfreithlon, a mynd ati’n rhagweithiol i adnabod safleoedd gwastraff anhysbys. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 3 | Rheoleiddwyr amgylcheddol yr UE yn cynnal asesiadau strategol ar droseddau gwastraff er mwyn hwyluso’r cydweithio ar fannau gwan cyffredin. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 4 | Rheoleiddwyr amgylcheddol (a phartneriaid) yn defnyddio technegau dadansoddi cydweithredol, fel y pecyn Ymddygiad Cystadleuol a’r Llawlyfr Cynllunio Ymyraethau, i fynd i’r afael â’r hyn sy’n achosi troseddau gwastraff. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 5 | Datblygu Cynllun Brocer Cymeradwy (tebyg i broses achredu diwydiant diogelwch y DU) a fyddai’n dyfarnu ‘statws cymeradwy’ yn erbyn meini prawf sydd wedi’u hasesu’n annibynnol. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 6 | Rheoleiddwyr amgylcheddol yn defnyddio’r pecyn Asesiad Risg Ariannol i sgrinio risg a herio gweithredwyr i ddatblygu modelau cost i ddangos cymhwysedd ariannol. | Tactegol | a. Aelod-wladwriaethau’r UE<br>b. ADA y DU |
| 7 | Rheoleiddwyr amgylcheddol y DU yn cymryd rhan yng nghynllun peilot Cronfa Ddata Fflagio Drawsffiniol LIFE Smart Waste i wella’r broses o gyfnewid deallusrwydd ar draws y DU. | Tactegol | ADA y DU |



# Eisiau gwybod rhagor?

Am ragor o wybodaeth, neu i weld adroddiadau, adnoddau a deunydd hyfforddi'r prosiect, ewch i wefan LIFE SMART Waste neu anfonwch e-bost atom.

## Y We




www.lifesmartwaste.com

## E-bost



lifesmartwaste@sepa.org.uk

## Hygyrchedd

Er mwyn cael y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, anfonwch neges e-bost at SEPA:

equalities@sepa.org.uk.

Os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL), mae gwasanaeth Contact Scotland BSL yn darparu dehonglydd ar-lein, fel bod modd i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio iaith arwyddion:

http://contactscotland-bsl.org/

www.sepa.org.uk
The Castle Business Park, Strathallan House, Stirling FK9 4TZ

SEPA
Scottish Environment Protection Agency
Buidheann Dìon Àrainneachd na h-Alba